ACTIVE BUILDING CENTRE RESEARCH PROGRAMME

Mawrth 2022

# ABC-RP Ymgysylltiad, Iechyd a Llesiant Preswylwyr y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

UK Research and Innovation

INDUSTRIAL STRATEGY


© Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol

**Y Tîm:**

Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol Prifysgol Abertawe

**Nodau trosfwaol:**

Meithrin dealltwriaeth sylfaenol o'r ffyrdd y bydd gwahanol bobl a chymunedau yn defnyddio ac yn ymwneud â'r technolegau a'r systemau ynni newydd a ymgorfforir mewn tai carbon isel.

Archwilio canlyniadau llesiant cartrefi carbon isel (manteision ariannol, iechyd a llesiant cymdeithasol).

Dadansoddi dulliau, deunyddiau a pholisïau cyfathrebu. Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd â rhanddeiliaid ehangach er mwyn deall yr heriau a wynebwyd yng nghyd-destun adborth y preswylwyr.

**Methodoleg:**

Dulliau arolygu aml-fodd, gan gynnwys: gwerthuso trwy arolygon meddianwyr, cyfweliadau, dyddiaduron.


© Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol

# Gwaith ymchwil gyda Phreswylwyr – ‘Ôl-osod’

Arolwg 1 Cyn y gwaith ôl-osod

Cyfweliad 2
Ychydig (3 mis) ar ôl y gwaith ôl-osod

Arolwg 3
Mwy na 12 mis ar ôl y gwaith ôl-osod

## Offeryn Arolygu
- Iechyd
- Cymdeithasol
- Ariannol

## Offeryn Cyfweld
- Dyddiadur arferion dyddiol
- Ymddygiad
- Agweddau
- Rhyngweithio

## Offeryn Arolygu
- Iechyd
- Cymdeithasol
- Ariannol


© Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol

# Fframwaith Llesiant – Ôl-osod

| Dulliau mesur ac archwilio trwy arolwg ar-lein a chyfweliadau ansoddol | Canlyniad Llesiant | Costau a Manteision Posibl |
|---|---|---|
| • Mesurau gwrthrychol a hunanasesiad, gan gynnwys iechyd meddwl<br>• Materion iechyd y mae'r amgylchedd adeiledig yn effeithio arnyn nhw<br>• Nifer yr ymweliadau â meddygon teulu ac ysbytai<br>• Fersiwn fer o raddfa iechyd meddwl Warwig-Caeredin | Iechyd | Gwelliannau o ran iechyd |
| • Rhwydweithiau cymdeithasol, cyfranogiad cymdeithasol, unigrwydd<br>• Cynhwysiant, defnydd, ymdeimlad o berthyn, cymdogaeth<br>• % a gyrchodd yr amgylchedd naturiol o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<br>• % a gytunai eu bod nhw'n perthyn i'r gymdogaeth | Cymdeithasol | Manteision Cymdeithasol |
| • Incwm yr aelwyd<br>• Gwariant yr aelwyd ar ynni<br>• Gwariant hanfodol<br>• Gwariant dewisol | Ariannol | Arbedion i Aelwydydd |


© Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol

# Sampl y Gwaith Ymchwil

| Prosiect ORP | Nifer y tai a gwblhawyd* | Y preswylwyr a gwblhaodd y gwaith ymchwil | Cyfweliadau proffesiynol | Darparu deunyddiau cyfathrebu i'w dadansoddi |
|---|---|---|---|---|
| ALl 1 Ffabrig, PV, Batri | 55 | 7 | 1 | Wedi'u darparu |
| ALl 2 System wresogi hybrid | 24 allan o 44 | 6 | 1 | Wedi'u darparu |
| ALl 3 System wresogi hybrid | 39 allan o 57 | 4 | 1 | Wedi'u darparu |
| ALl 4 Cymysg | 7 (i gyd yn wag) | amherthnasol | 1 | Wedi'u darparu |
| Consortiwm Braenaru - Amrywiol | Amrywiol | 0 | 8 | 10 allan o 26 wedi'u darparu |

*Ar adeg y cyfweliadau


© Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol

# Canfyddiadau – Adborth y Preswylwyr

Gwnaeth preswylwyr y sylw nad oedd dewis iddynt optio allan.

Mae rhai preswylwyr wedi diffodd eu pympiau gwres ar ôl gweld faint o ynni roedden nhw'n ei ddefnyddio.

Gwnaeth preswylwyr y sylw nad ydyn nhw'n deall pwrpas IES/synhwyrydd.

Gwnaeth preswylwyr y sylw nad oedden nhw'n deall graddau'r gwaith roedden nhw wedi cytuno yn ei gylch (mesur a monitro).

Mae'r synwyryddion a'r systemau yn y cartrefi yn swmpus ac ni feddyliwyd digon am eu lleoliad, nid yw preswylwyr yn teimlo'n falch o'u cartref bellach.

Dywedodd preswylwyr nad oes neb i siarad â nhw pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.

Dywedodd rhai preswylwyr iddyn nhw gael profiad gwael ond ei fod yn werth y drafferth nawr (cartref cynhesach).

Mae cymdogion yn ddylanwadol iawn, e.e. mae rhai wedi aros i weld beth mae eu cymydog yn ei gael yn gyntaf.

Arbed arian ar filiau tanwydd oedd y prif gymhelliad i breswylwyr.

Byddai tai preifat yn yr un bloc wedi bod yn barod i dalu am waith ôl-osod.


© Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol

# Adborth gan y preswylwyr – Y broses

- Roedd y rhai a ddisgrifiodd brofiad mwy cadarnhaol yn tueddu i fod yn fwy bodlon ar lefel y cyfathrebu a'r wybodaeth a'r parodrwydd i ymateb i ymholiadau neu broblemau:

*"rheolwr prosiect <cwmni ôl-osod>, hi oedd yn rheoli'r prosiect yn ôl pob golwg, ac roedd hi'n dda iawn. Roedd hi'n wastad ar ben arall y ffôn pryd bynnag roedd ei hangen arnon ni" Tenant B1015*

- Roedd y mwyafrif am gael mwy o eglurhad am y *broses* ôl-osod.
- Amserlenni, manylion, pryd/pwy/beth y gallai/dylai'r tenantiaid ei wneud i baratoi.
- Pryder ynghylch pwy fyddai'r brif ddolen gyswllt petai cwestiynau neu broblemau.

 © Active Building Centre Research Programme 

# Adborth gan y preswylwyr – Y broses

- Gwnaeth y preswylwyr a'r gweithwyr proffesiynol sylwadau ynghylch natur drafferthus ac ymwthiol y Broses
- Cawson nhw eu synnu gan faint rhai o'r technolegau newydd (yn enwedig y pympiau gwres) a faint o le yr oedd ei angen ar y batris neu'r pibellau newydd, er enghraifft, roedd yn fwy trafferthus na'r disgwyl.
- Gwnaeth un tenant y sylw y bydden nhw wedi mynd i ffwrdd am ychydig o wythnosau.
- Mewn cyfweliad, soniodd tenant arall am deimladau'r cymdogion:

*"Mae pawb yn cwyno amdano ac mae pawb yn dweud yr un peth yn y bôn. Mae'r batris yn swnllyd. Mae rhai wedi colli'r holl le o dan y staer a phethau. Mae rhai wedi cael problemau o ran ble roedd popeth yn mynd". (Tenant B1012)*

 © Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol 

# Adborth gan y preswylwyr – Y broses

- Yn dibynnu ar y math o ôl-osod a'r gwaith yr oedd angen ei wneud, efallai y gellid rhoi rhai canllawiau i bobl am y gwaith paratoi y gallen nhw ei wneud eu hunain. Er enghraifft, os byddai'r to yn cael ei dynnu – a fyddai angen iddyn nhw symud neu ddiogelu popeth oedd yn cael ei gadw yno.

*"Hoffwn i fod wedi gwybod ychydig mwy ac fel rydych chi'n dweud, gallen ni fod wedi paratoi ychydig mwy o'n hochr ni. Fy nghyngor i i rywun sy'n cael gwaith wedi'i wneud fyddai 'byddwch yn barod amdano'. […] Er enghraifft, roedd hi'n siang-di-fang yn y llofft, cafodd yr atig ei ddinistrio i bob pwrpas. Fe gymerodd amser hir i mi roi trefn ar bethau." (Tenant B1013)*

 © Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol 

# Adborth gan y preswylwyr – Systemau

Dywedodd un preswylydd i ddechrau *“Byddwn i’n cynghori pobl i beidio â mynd amdani”* gan fod y broses wedi bod yn brofiad mor wael iddyn nhw ond, ar ôl myfyrio, fe ddywedodd:

> *“Byddwn i’n mynd amdani, bydden ni wedi mynd amdani oherwydd mae’r tŷ yn dwymach wrth reswm ac ry’n ni’n arbed trydan, wyddoch chi? Ond y ffordd y cafodd ei wneud, y ffordd aethon nhw ati. Chi’n gwybod, gorffennwch un tŷ ar y tro, peidiwch â ... Gwnewch un tŷ a’i orffen!”.(Tenant B008)*

> *“Rwy’n credu efallai, fel pob technoleg i ddechrau, gallai’r batris fod ychydig yn llai ac yn llai swnllyd. Ond wrth gwrs, fel y gwelson ni gyda ffonau symudol, bydd y pethau hyn yn mynd yn llai ymhen blynyddoedd. Fel arall, mae’n wych, ydy. Mae’n welliant da iawn. […]*
> *Byddwn i’n annog pobl i gymryd rhan, byddwn, gyda’r gwelliannau. Ie, gydag amser, bydd pethau’n gwella eto ac mae’r dechnoleg yn mynd i wella”. (Tenant B1015)*

 © Active Building Centre Research Programme 

# Adborth gan y preswylwyr - Systemau

Roedd hi’n amlwg fod peth ansicrwydd ynghylch sut i weithio’r gwahanol dechnoleg

– gyda nifer yn dweud na chawson nhw ddigon o wybodaeth ysgrifenedig na llafar.

Dywedodd rhai eu bod nhw’n dysgu wrth fynd ymlaen.

*“Petai’n rhaid cwyno am rywbeth, byddwn i’n dweud bod y cyfathrebu’n wael. …] Bu’n rhaid i mi a’r wraig fentro gyda’n gilydd. Rydyn ni’n dysgu wrth fynd ymlaen oherwydd chawson ni ddim llawlyfr, na sgwrs fach gyda rhywun na dim. Roedd rhaid i ni glatsio bant.” (Tenant B1013)*

Roedd rhai preswylwyr yn defnyddio’r thermostat ac nid yr ap :

*“RES2: Mae yna ap gallwn ni ei ddefnyddio ar gyfer y gwres. Wel oes ond a dweud y gwir, mae’n haws defnyddio’r hen ffordd.[…] Yn bersonol, rwy’n mynd i’r llofft ac yn ei droi i fyny ond mae gan <cyfranogwr>  ap mae hi’n ei ddefnyddio weithiau ar ei ffôn. […] Fe wnaethon nhw raglennu’r peth i ti yn do? (gŵr yn siarad â’i wraig).” (Tenant B1011)*

 © Active Building Centre Research Programme 

# Adborth gan y preswylwyr – Defnyddio ynni

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol o gamau arbed ynni (peidio â gadael y teledu yn y modd segur, diffodd goleuadau, golchi llwyth cyfan o ddillad bob tro ac ati). Felly does dim modd gwybod eto i ba raddau y gall ymddygiad tenantiaid tai cymdeithasol newid na sut y bydd yn gwneud hynny. Fel y dywedir yn y dyfyniad isod, gallai mynediad at ynni "am ddim" gael effaith i'r gwrthwyneb gyda phobl yn defnyddio dyfeisiau yn y cartref mewn modd llai darbodus.

> *"Wel, does arna i ddim ofn defnyddio fy mheiriant golchi dillad nawr. Ydy, mae hwnnw'n rhedeg oherwydd o'r blaen, ro'n i'n arfer aros nes bod llwyth mawr gen i. Ond nawr, rwy'n ei redeg achos rwy'n gwybod nad ydw i'n defnyddio cymaint. [Galla i ddefnyddio'r peiriant sychu dillad yn amlach, oherwydd ar ddyddiau glawog, roedd rhaid imi sychu'r dillad ar y rheiddiaduron o gwmpas y tŷ. Ond nawr, rwy'n rhoi popeth yn y sychwr. Mae'r paneli solar yn talu amdano." (Tenant B1012)*

 © Active Building Centre Research Programme 

# Adborth gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig/Gweithwyr ALl Proffesiynol

Barnwyd bod gwybodaeth a chyfathrebu diffygiol yn y sefydliad, a rhwng LCCiaid, sy'n achosi ansicrwydd yn y broses.

Roedd y cyfathrebu rhwng LCCiaid yn tueddu i ganolbwyntio ar 'newyddion da' yn unig, a oedd yn wahanol i'r hyn oedd yn digwydd ym mhrofiad pobl.

Diffyg negeseuon cyson ymhlith contractwyr a thenantiaid a pheirianwyr gwahanol yn rhoi negeseuon anghyson, gyda goblygiadau i denantiaid o ran defnyddio'r dechnoleg.

Roedd diffyg gwybodaeth neu hyfforddiant manwl gywir hefyd yn treiddio i'r cysylltiadau â thenantiaid, gyda chanlyniadau negyddol o bosibl o ran gweithredu'r systemau.

 © Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol 

# Adborth gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig/Gweithwyr ALl Proffesiynol

Un o'r materion allweddol a amlygwyd gan weithwyr proffesiynol oedd y ffaith, hyd yn oed pan oedd tenantiaid yn cysylltu â rhywun o'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, bod diffyg rhaeadru hyfforddiant trwy'r sefydliad yn gallu golygu bod tenantiaid yn derbyn gwybodaeth anghywir, fel y gwelir isod :

*"Maen nhw'n mynd i'r ganolfan alwadau; ac mae arnyn nhw angen gwybodaeth amdano. Ddoe, er enghraifft, pan ges i hen wraig sydd ddim yn gwybod sut i ddefnyddio'r peiriant, wel mae hi'n mynd trwy'r ganolfan alwadau yn gyntaf, "Does dim gwres yma". Ond does gan y ganolfan alwadau ddim gwybodaeth am y math o system sydd yno ... felly mae cynifer o bobl yn gorfod ymwneud â'r mater, ac [mae angen] gwybodaeth yn y canolfannau galwadau hefyd. Nid mater syml o drwsio'r ffynhonnell aer yw hyn, mae angen yr wybodaeth ar nifer fawr o bobl."(Gweithiwr Proffesiynol PRF0004)*

 © Rhaglen Ymchwil Canolfan Adeiladu Gweithredol 

# Dadansoddi'r deunyddiau ymgysylltu – y dull

- Deunyddiau ymgysylltu (llythyrau, negeseuon e-bost, llythyrau newyddion 14 LCC ac ALl)
- Cyfathrebu (amlder, dull, wedi'i gynllunio neu ddull *ad hoc*)
- Oed darllen a rhwyddineb darllen
- Dull cyflwyno'r data – a gafodd ei osod allan yn glir – geiriau/diagramau.
- A yw'n esbonio'r broses ôl-osod?
- Optio i mewn/optio allan
- Dadansoddi'r cynnwys

 © Active Building Centre Research Programme 

# Dadansoddi'r deunyddiau ymgysylltu – Y canlyniadau

O ran darllen, roedd y rhan fwyaf o'r 14 o ddeunyddiau a ddadansoddwyd ar lefel gradd.

Roedd y deunyddiau'n ffocysu ar dargedau newid yn yr hinsawdd ac yn mynegi'r syniad, 'mae'r Llywodraeth yn dweud bod rhaid i ni wneud hyn', yn hytrach na sôn am arbed arian.

Nid oedd pob un yn cynnwys neges glir ynghylch optio i mewn/optio allan

Dim ond dau LCC oedd wedi ysgrifennu deunydd hygyrch ar lefel ddarllen briodol. Cadwyn a Tai Newydd oedd y rhain, ac roedd sgôr rhwyddineb darllen y ddau yn 70.

Adlewyrchwyd y canlyniadau yn naratifau'r gweithwyr proffesiynol.

Dywedodd un landlord cymdeithasol eu bod nhw'n rhoi'r *'darlun eang'* yn unig i denantiaid 60 oed a throsodd.

 © Active Building Centre Research Programme 

# Dadansoddi'r deunyddiau ymgysylltu – Y canlyniadau

Mae'r dulliau ymgysylltu'n amrywio

Gwelir dulliau gweithredu a negeseuon gwahanol ar draws Awdurdodau Lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae hyn yn arwain at rywfaint o ddryswch a phreswylwyr sy'n anfodlon cyfranogi.

Gallai hyn achosi problemau yn y dyfodol …

- Preswylwyr sydd heb sylweddoli beth maen nhw wedi ymrwymo iddo.
- Ceisiadau am waredu'r offer neu beidio â defnyddio'r systemau yn ôl y bwriad.
- Angen mwy fyth o adnoddau gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer anawsterau sy'n parhau.


© Active Building Centre Research Programme

| Gwers/Sialens | Argymhelliad | Y Camau Nesaf |
|---|---|---|
| Mae’r deunydd cyfredol yn targedu darllenwyr ar lefel gradd ac nid yw preswylwyr yn gwbl ymwybodol o’r hyn maen nhw’n cydsynio iddo. | Mae angen ysgrifennu deunyddiau Ymgysylltu â Thenantiaid sy’n hygyrch ac yn ddarllenadwy i ystod eang o lefelau darllen.<br>Rhwyddineb darllen<br>Oed darllen | Recriwtio grwpiau tenantiaid i helpu i ddrafftio’r deunydd. |
| Ystyriaeth gyfyngedig o bersbectif y tenantiaid, eu dymuniadau. a chanlyniadau disgwyliedig y gwaith ôl-osod. | Cynnwys tenantiaid yn y broses o’r dechrau, diwrnodau ymgysylltu, cwestiynau ac atebion. | |
| Pryder ac ansicrwydd preswylwyr sy’n ymdopi ag offer newydd a gofynion y rhyngwyneb defnyddwyr newydd, yn golygu nad ydynt yn defnyddio systemau yn y modd cywir. | Ymyriadau ymddygiadol – e.e. gwybodaeth a chymorth wedi’u teilwra<br><br>Rhaid darparu hyfforddiant a chymorth parhaus er mwyn caniatáu i denantiaid addasu gwres eu cartref yn ôl yr angen. Cefnogi cynhwysiad digidol ar gyfer pob grŵp oedran – gan leihau’r posibilrwydd o gynyddu anghydraddoldeb. | Gwella’r berthynas rhwng y defnyddiwr a’r system dechnolegol – gweithio gyda’r tenantiaid i nodi eu hanghenion. |
| Synnwyd y tenantiaid a’r gweithwyr proffesiynol gan lefel yr ymyrraeth, y tarfu a maint y systemau. | Mae’n bwysig esbonio’r broses i’r tenantiaid, a thrafod lleoliad y dechnoleg a dylai hyn fod yn arfer da. Os na fydd hynny’n ymarferol – yna gellid defnyddio tŷ arddangos neu fideo i ddangos i’r tenantiaid beth fydd yn digwydd yn eu cartref. | Tai arddangos/cynnwys fideo. |

| Gwers/Sialens | Argymhelliad | Y Camau Nesaf |
| --- | --- | --- |
| Collir gwersi ac arfer gorau yn aml. | Fforymau i rannu'r da a'r drwg o ran storïau, deunyddiau a phrosesau | Fforymau ORP 2 |
| Gwerthoedd Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y Deyrnas Unedig oedd yn y deunyddiau ymgysylltu. | Mae angen i ddeunyddiau ymgysylltu â thenantiaid adlewyrchu blaenoriaethau a gwerthoedd y tenantiaid. Dull seiliedig ar asesu anghenion. | Sôn am ôl-osod yng nghyswllt arbed ynni, arbed arian, tŷ cynhesach. |
| Anhawster recriwtio preswylwyr ar gyfer y gwaith ymchwil oherwydd oedi a COVID | Diwrnodau ymgysylltu wyneb yn wyneb a hwyluso rhannu'r arolwg ar-lein. | Bod ABC-RP yn ymgysylltu â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i rannu'r arolwg ar-lein. |
| Ni chwblhawyd yr adroddiad Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi oherwydd oedi a'r amserlen. +1 flwyddyn | Parhau i gasglu data'r fframwaith Llesiant er mwyn meintioli'r effaith gymdeithasol. Mae angen gwaith ymchwil hydredol i asesu'r effaith ar iechyd. | Bod ABC-RP yn parhau ag Arolwg 2 |
| Diffyg gwybodaeth a hyfforddiant ar lefel sefydliad, nid y tîm ar y tir yn unig | Ehangu'r hyfforddiant i gwmpasu aelodau eraill o staff y sefydliad, e.e. canolfan alwadau, cwynion, cyfathrebu | Dylid darparu hyfforddiant parhaus, gloywi |
| Neb i drafod cwynion/pryderon gyda nhw. | Sicrhau bod dolen gyswllt neu dîm sy'n gyfrifol am ymateb i gwynion, ymholiadau a phryderon tenantiaid. Dylai fod cyfleoedd i wrando ar denantiaid a'u cefnogi cyn, yn ystod ac ar ôl gosod yr offer. | Sicrhau bod anawsterau'n cael eu codi a bod gwersi'n cael eu dysgu a'u hymgorffori yng nghamau nesaf y broses ôl-osod a rhannu'r sicrwydd hwn â'r tenantiaid. Mae cydnabod bod materion a godir yn bwysig i denantiaid a bod gofyn ymateb iddyn nhw yn allweddol er mwyn i'r broses ennill ei phlwyf. |
| Amwysedd ynghylch Monitro a Diogelu Data. | Dylid egluro i'r tenantiaid a staff Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig beth sy'n cael ei fonitro, pwy sy'n ei fonitro ac i ble mae'r data'n mynd. | Mae angen i'r broses monitro data fod yn glir ac yn dryloyw. |

# Enghreifftiau o Arfer Da o ran Ymgysylltu

ACTIVE BUILDING CENTRE RESEARCH PROGRAMME

| | | |
|---|---|---|
| Byddwch yn onest, ewch law yn llaw ar hyd y daith. Diweddariadau! | Peidiwch â bod yn rhy dechnegol. | Edrychwch ar negeseuon LCCiaid eraill i weld oed darllen priodol, e.e. Cadwyn a Tai Newydd |
| Geirdaon gan breswylwyr (barn gytbwys), fideos, tai arddangos | Cynulliad dinasyddion – o'r gwaelod i fyny | Hyfforddiant – Llythrennedd Carbon |
| Negeseuon a chanllawiau clir ledled Cymru gan Lywodraeth Cymru | Darlun Eang wedi'i ddilyn gan ragor o fanylion | Mae angen proses gwynion |

UK Research and Innovation
INDUSTRIAL STRATEGY


© Active Building Centre Research Programme

Laura Holt

07710856025

l.e.holt@swansea.ac.uk

www.Abc-rp.com

@BuildingActive

 © Active Building Centre Research Programme 